# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Bodelwyddan Residential Care Limited**

**Ffordd Belan**
**Rhosneigr**
**LL64 5JG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

05/10/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Bodelwyddan Residential Care Limited

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Bodelwyddan Residential Care Ltd. |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 13 Ebrill 2023 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn fodlon ar y gwasanaeth, ac maent yn canmol y gofal y maent yn ei gael. Mae'r perthnasau hefyd yn canmol y gwasanaeth a ddarperir. Cyn i'r bobl ddod i fyw yn y gwasanaeth, mae'r rheolwr yn gwneud yn siŵr ei fod yn deall anghenion gofal a chymorth pob unigolyn yn llawn. Caiff y wybodaeth hon ei chofnodi mewn asesiad. Fodd bynnag, ni chaiff y wybodaeth hon ei chofnodi'n rheolaidd mewn cynllun personol ar gyfer pob unigolyn. Mae hyn yn cael effaith ar allu'r gweithwyr gofal i gael gafael ar ganllawiau penodol ar sut i ddiwallu anghenion pob unigolyn, ac mae angen gwella hyn. Nid yw'r gofal a ddarperir gan y gweithwyr gofal yn cael ei gofnodi bob amser, ac mae hwn hefyd yn faes sydd angen sylw.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn gyfforddus ac yn hybu ymdeimlad o berthyn y bobl. Ers yr arolygiad diwethaf, gwnaed gwelliannau i ddiogelwch yr amgylchedd i leihau'r risg posibl o niwed i'r bobl. Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch rheolaidd eu cwblhau, ac mae'r cartref yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

Mae'r gweithwyr gofal yn mwynhau eu rolau ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr. Caiff yr hyfforddiant priodol ei ddarparu, ac mae'r lefelau staffio yn ddigonol i ddiwallu anghenion gofal y bobl.

## Llesiant

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n cefnogi ymdeimlad cadarnhaol o lesiant. Mae gan yr adeilad ymdeimlad cartrefol. Mae'n gynnes ac yn lân. Gall y bobl gerdded yn ddiogel ar y safle gan fod y risgiau i'w diogelwch wedi'u nodi a'u rheoli. Caiff cyfarpar ei ddarparu i gefnogi'r bobl sydd â phroblemau symudedd fel y gallant ddefnyddio'r cyfleusterau a ddarperir. Mae ystafelloedd y bobl yn cael eu gwneud er mwyn iddynt deimlo eu gofod personol. Mae gwiriadau iechyd a diogelwch ar waith i sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel.

Mae'r gweithwyr gofal yn cefnogi'r bobl mewn ffordd barchus. Caiff y gofal a'r cymorth a ddarperir eu canmol gan y bobl a'u perthnasau. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus yn byw yn y gwasanaeth, ac maent yn cyd-dynnu'n dda â'r staff. Dywedwyd wrthym; *“staff edrych ar ol fi yn dda – the staff look after me well”, “I enjoy the banter with the staff and the others who live here*”. Caiff dewisiadau eu darparu yn gysylltiedig â phrydau a sut mae'r bobl am dreulio eu diwrnod. Dywedodd y perthnasau wrthym eu bod wedi gweld gwelliant yn llesiant eu perthynas ers iddynt symud i fyw yn y gwasanaeth.

Mae amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth yn flaenoriaeth yn y gwasanaeth. Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel yn byw yn y gwasanaeth. Ni all unrhyw un fynd i mewn i'r adeilad heb ganiatâd y staff a chedwir cofnodion o'r ymwelwyr. Mae'r gweithwyr gofal yn cynnal gwiriadau addasrwydd cyn iddynt allu gweithio yn y gwasanaeth. Caiff hyfforddiant ar ddiogelu ei ddarparu, ac mae'r gweithwyr gofal yn gwybod bod angen iddynt roi gwybod am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt am ddiogelwch y bobl. Mae trefniadau ar waith ar lefel rheoli i dderbyn unrhyw bryderon diogelu ac i'w rhannu â'r awdurdodau perthnasol.

Mae anghenion gofal a chymorth y bobl yn hysbys cyn iddynt symud i mewn i'r cartref. Mae gan y rheolwr ddealltwriaeth dda o gyflyrau iechyd y bobl, eu hanghenion gofal a chymorth a sut y dylid eu diwallu. Ni chaiff y wybodaeth hon ei chofnodi bob amser mewn cynllun personol, sy'n cael effaith ar y lefel o ganllawiau ysgrifenedig sydd ar gael i'r gweithwyr gofal am anghenion gofal y bobl. Ar ben hynny, nid yw'r gweithwyr gofal bob amser yn cofnodi'r gofal a'r cymorth a ddarperir i'r bobl o ddydd i ddydd. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn gwybod sut i gefnogi'r bobl ac mae'r rheolwr yn hyderus bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir. Ond mae'r diffyg cofnodion wedi'u cwblhau yn ei gwneud hi'n anodd bod yn siŵr o'r gofal a'r cymorth a roddir i'r bobl. Mae argaeledd cynlluniau personol a'r cofnodion o'r gofal a'r cymorth a ddarperir yn feysydd yn y gwasanaeth sydd angen eu gwella.

## Gofal a Chymorth

Mae'r rheolwr yn ymwybodol o anghenion gofal a chymorth y bobl cyn iddynt ddod i fyw yn y gwasanaeth. Mae'r rheolwr yn asesu anghenion gofal a chymorth y bobl cyn iddynt dderbyn gwasanaeth. Gwnaed asesiadau gan weithwyr proffesiynol sy'n ymwybodol o'r bobl, er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o anghenion yr unigolyn cyn iddynt symud i'r cartref. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y cartref gofal yn lleoliad addas ar gyfer yr unigolyn sy'n cael gofal a chymorth parhaus.

Nid yw'r cynlluniau personol bob amser ar waith i gofnodi anghenion gofal a chymorth y bobl a sut y cânt eu diwallu. Mae hyn yn golygu na all y gweithwyr gofal bob amser gael gafael ar wybodaeth ysgrifenedig mewn perthynas â'r gofal a'r cymorth y dylent eu darparu i bob unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae diffyg cynllun personol yn peri risg na fydd yr holl staff yn gyfarwydd ag anghenion gofal a chymorth presennol y bobl. Gallai hyn gael effaith ar barhad gofal a chymorth y mae'r bobl yn eu cael. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Mae systemau ar waith i ymateb i unrhyw honiad o gam-drin a rhoddir gwybod i'r awdurdodau perthnasol pan fydd angen. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yn y gwasanaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant mewn perthynas â cham-drin ac maent yn deall eu cyfrifoldeb i roi gwybod am unrhyw faterion diogelu i'r rheolwr. Gwnaethant gadarnhau eu bod yn teimlo byddai'r rheolwr yn ymateb yn briodol i unrhyw faterion o'r fath a ddaw i'w sylw.

Mae trefniadau ar waith i hyrwyddo arferion rheoli heintiau da. Gwelsom fod y staff yn gallu cael gafael ar gyfarpar diogelu personol sy'n amddiffyn y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth rhag clefydau heintus fel COVID-19. Mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar reoli heintiau ac maent yn deall pwysigrwydd dilyn mesurau rheoli heintiau da.

Caiff y Gymraeg a'i diwylliant eu parchu fel agwedd bwysig ar hunaniaeth y bobl. Mae'r bobl yn cael eu gofal a'u cymorth yn eu dewis iaith, boed hynny'n Gymraeg neu'n Saesneg. Clywsom y staff gofal yn siarad â'r bobl yn y ddwy iaith, a dywedodd y bobl wrthym fod eu gallu i gyfathrebu eu hanghenion yn eu dewis iaith yn agwedd gadarnhaol ar y gwasanaeth.

## Yr Amgylchedd

Darperir gofal a chymorth mewn amgylchedd sy'n hyrwyddo ymdeimlad y bobl o werth a pherthyn. Mae'r cartref yn lân, mewn cyflwr da ac yn gartrefol. Caiff lolfeydd cymunedol o feintiau amrywiol eu darparu sy'n golygu bod y bobl yn gallu eu defnyddio i dreulio amser gyda phreswylwyr eraill a gyda'u hymwelwyr. Mae ystafell fwyta fawr ar gael lle gall y bobl ddewis eistedd gydag eraill i fwyta eu prydau. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd gydag eitemau sydd o bwys iddynt, fel lluniau wedi'u fframio, trugareddau, a dodrefn meddal. Mae hyn yn helpu'r bobl i deimlo bod eu llofft yn ofod personol sy'n eiddo iddynt.

Caiff y cyfleusterau yn y cartref eu dylunio i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yno. Gwelsom y gall y bobl sydd angen cymorth gyda'u symudedd gael gafael ar fathiau a chawodydd. Mae hyn yn rhoi dewis i'r bobl gael bath neu gawod, p'un bynnag y dymunant. Mae lifft grisiau ar gael i helpu'r bobl sy'n ei chael hi'n anodd cerdded i fyny'r grisiau. Mae yna ardd â seddi wedi'u darparu os bydd y bobl yn dymuno treulio amser yn yr awyr agored.

Caiff risgiau yn yr amgylchedd i iechyd a diogelwch y bobl eu rheoli'n effeithiol. Yn ystod yr arolygiad diwethaf, gwelsom nad oedd y rheilen o amgylch y balconi yn ddigonol i amddiffyn y bobl rhag niwed posibl. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod y darparwr wedi cymryd camau gweithredu, a rhoddir ychwanegiadau at y rheilen o amgylch y balconi, sydd wedi lleihau'r risg o niwed i'r bobl. Mae'r balconi yn darparu ardal er mwyn i'r bobl dreulio amser yn yr awyr agored, lle y gallant weld y môr. Mae larymau bellach ar waith hefyd i rybuddio'r staff pan fydd yr allanfeydd drysau tân ar agor. Mae'r dyfeisiau nwy, gwifrau trydanol yr adeilad, a'r dyfeisiau trydanol yn cael eu profi a'u gwasanaethu yn ôl yr angen i sicrhau eu bod yn ddiogel. Mae'r cyfarpar symud a chodi a chario, fel y teclynnau codi a'r lifftiau bath, yn cael eu gwasanaethu bob chwe mis, i sicrhau diogelwch y bobl. Mae trefniadau ar waith i brofi'r system larwm tân yn rheolaidd ac mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng ar waith i gofnodi'r cymorth sydd ei angen ar bob unigolyn i adael yr adeilad mewn argyfwng.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel, maent yn cael yr hyfforddiant perthnasol, a chânt eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Gwelsom y caiff gwiriadau priodol eu cwblhau cyn i weithwyr gofal newydd gael eu cyflogi i weithio yn y gwasanaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn addas i weithio gyda'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent yn cwblhau sesiwn sefydlu cyn iddynt ddechrau gweithio yn y gwasanaeth, ac maent hefyd cysgodi sifftiau gydag aelodau profiadol o staff. Caiff hyfforddiant ei ddarparu sy'n cefnogi'r gweithwyr gofal i ddeall anghenion gofal y bobl a sut i ddarparu gwasanaeth yn ddiogel. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Maent yn disgrifio'r rheolwr fel unigolyn hawdd mynd ato ac fel rhywun agored i gael adborth gan y tîm. Gwelsom y gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwylio un i un ac mae cyfarfodydd tîm y staff yn mynd rhagddynt.

Nifer y staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn ddiogel. Dywedodd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw bod digon o staff ar ddyletswydd ym mhob sifft fel y gallent ddiwallu anghenion gofal y bobl, heb orfod rhuthro. Gwelsom y gweithwyr gofal yn ymateb i anghenion gofal y bobl wrth iddynt godi, ac nid yw'r bobl yn gorfod disgwyl iddynt ymateb, Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn gallu treulio amser yn siarad â'r bobl neu yn cymryd rhan mewn gweithgareddau un i un fel paentio eu hewinedd. Cyflogir staff cegin sy'n golygu y gall y gweithwyr gofal ganolbwyntio ar gefnogi'r bobl.

Nid yw cofnodion mewn perthynas â'r gofal a'r cymorth a roddir yn cael eu cadw'n rheolaidd. Yn ystod yr arolygiad diwethaf, gwelsom nad oedd cofnodion dyddiol yn cael eu cadw'n rheolaidd i gofnodi'r gofal a'r cymorth a ddarperir ac i ba raddau y mae'r bobl yn cyflawni eu canlyniadau. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod hwn yn faes yn y gwasanaeth sydd angen gwneud gwelliannau o hyd. Er bod rhai ffeiliau gofal y bobl yn cynnwys cofnodion o'r cymorth a ddarperir o ddydd i ddydd, nid oedd y wybodaeth hon ar gael yn ffeiliau gofal pob unigolyn. Gwelsom nad oedd y siartiau sy'n cael eu defnyddio i gofnodi'r cymorth sydd ei angen ar y bobl i ofalu am eu croen, wedi cael eu cwblhau'n llawn fel y dylent. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd cadarnhau'r cymorth y mae'r bobl wedi'i gael gan nad oedd y wybodaeth wedi cael ei chofnodi gan y gweithwyr gofal. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 44 | Nid oes larymau wedi cael eu gosod ar yr allanfeydd tân er mwyn hysbysu'r staff bod rhywun wedi gadael drwyddynt.  Nid oes atalfeydd digonol ar y balconi ar y llawr cyntaf i atal y risg o gwympiadau. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 15 | Gwelsom nad oedd y cynlluniau personol bob amser ar waith i gofnodi'r cymorth sydd ei angen ar y bobl i ddiwallu eu hanghenion ac i gyflawni eu canlyniadau. | Newydd |
| 59 | Ni chaiff cofnodion sy'n dangos sut y caiff gofal a chymorth eu darparu eu llunio yn ddyddiol. Dylai'r cofnodion hyn fod ar gael i adlewyrchu'r gofal a'r cymorth y mae'r bobl wedi'u cael. Mae hyn yn cynnwys cwblhau'n llawn y siartiau a ddefnyddiwyd i gefnogi'r bobl sy'n cael gofal ar gyfer eu croen. | Heb Gyflawni |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 20/11/2023